SEFWCH GYDA FFOADURIAID

SYNIADAU AR GYFER ADDYSGU

CYNNWYS

- Cyflwyniad
- Gwybodaeth am yr adnodd hwn
- Syniadau ar gyfer gweithgareddau
  - *Archwilio delweddau*
  - *Defnyddio fideos i feithrin empathi*
  - *Dehongli data*
- Dolenni ac adnoddau defnyddiol

CYFLWYNIAD

Dychmygwch fod eich bywyd, eich cartref, eich bywoliaeth a'ch cymuned wedi'u dinistrio yn sgil anhrefn gwrthdaro neu drychineb. Dychmygwch eich bod chi a'ch teulu yn rhedeg am eich bywydau gyda dim ond yr ychydig bethau y gallech eu cario. Dychmygwch eich bod wedi gwneud y penderfyniad dirdynnol i ffoi, dim ond i ddod ar draws ffensys gwifrog a moroedd peryglus yn sefyll rhyngoch chi a diogelwch.

I filiynau o bobl gyffredin, mae'r sefyllfaoedd annirnadwy hyn wedi dod yn realiti beunyddiol. Mae ffoi gwrthdaro a thrychinebau yn gwthio pobl i dlodi. I bobl sydd eisoes yn byw mewn tlodi, nid yw rhedeg am eich bywyd yn golygu gadael newyn, salwch a chaledi ar ôl.

Ar ddiwedd 2016, roedd 65.6 miliwn o bobl wedi cael eu gorfodi i adael eu cartrefi, o ganlyniad i erledigaeth, gwrthdaro, trais, neu droseddau hawliau dynol. Roedd hyn yn gynnydd o 300,000 o bobl o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[1]

Mae poblogaeth y byd sydd wedi'i dadleoli trwy rym yn uwch nag erioed. Mae bron dwy ran o dair o'r bobl sydd wedi'u dadleoli yn y byd wedi'u dadleoli'n fewnol. O'r rhai sy'n ffoi i wledydd eraill, mae'r mwyafrif (84%) yn cael eu lletya yn rhan ddeheuol y byd. Er enghraifft, erbyn diwedd 2016, roedd ychydig o dan 120,000 o ffoaduriaid yn y Deyrnas Unedig, ac ym Mhacistan roedd dros 1.3 miliwn.[1]

Fodd bynnag, yn 2016, amcangyfrifir bod 362,000 o ffoaduriaid ac ymfudwyr wedi rhoi eu bywydau yn y fantol wrth groesi Môr y Canoldir i gyrraedd Ewrop. Er dechrau 2017, ofnir bod mwy na 2,700 o bobl wedi marw neu wedi mynd ar goll wrth wneud y siwrnai beryglus hon.[2]

Mae Oxfam yn ymateb trwy weithio yn Syria, Gwlad yr Iorddonen a Libanus i ddarparu dŵr glân, glanweithdra a chymorth hanfodol i deuluoedd sydd wedi colli popeth. Rydym yn helpu pobl sydd

[1] UNHCR (2017) Global Trends – Forced Displacement in 2016. www.unhcr.org/uk/statistics/unhcrstats/5943e8a34/global-trends-forced-displacement-2016.html
[2] www.unhcr.org/pages/561cc0696.html

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

wedi'u dadleoli ac sy'n cyrraedd Gwlad Groeg, Bangladesh, Uganda a llawer o leoedd eraill trwy ddarparu dŵr, bwyd, dillad a chitiau hylendid personol, yn ogystal â darparu cymorth tymor hwy.

Ar hyn o bryd mae Oxfam yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i helpu ffoaduriaid i ddod o hyd i'r diogelwch y mae arnynt ei wir angen ledled y byd, trwy wneud y canlynol:

- *Newid y rheolau i gadw teuluoedd gyda'i gilydd*
- *Newid y rheolau fel y gall pobl deithio'n ddiogel i hawlio lloches*
- *Croesawu mwy o bobl sydd wedi colli popeth i'r Deyrnas Unedig, gan roi cyfle iddynt adeiladu dyfodol.*
- *Gwneud mwy i helpu gwledydd yn rhan Ddeheuol y byd sy'n lletya mwyafrif ffoaduriaid y byd.*

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://www.oxfam.org.uk/oxfam-in-action/current-emergencies/

GWYBODAETH AM YR ADNODD HWN

Gall fod yn heriol i addysgwyr archwilio'r materion hyn yn yr ystafell ddosbarth. Dyma ddetholiad o syniadau addysgu byr a dolenni gwe defnyddiol i gynorthwyo dysgwyr i wneud y canlynol:

- Defnyddio a gwella eu sgiliau ymholi, cwestiynu a dadansoddi
- Meddwl yn feirniadol am y rhesymau pam y mae rhai pobl yn cael eu gorfodi i ffoi
- Meithrin empathi tuag at eraill, a chydnabod y llu o gysylltiadau ac elfennau cyffredin rhwng bywydau'r rhai sy'n cael eu gorfodi i ffoi a'n rhai ni.

Mae'r gweithgareddau wedi'u hanelu at ddysgwyr 7-14 oed, ac maent yn cysylltu â gwahanol feysydd o'r cwricwlwm, gan gynnwys Saesneg, Daearyddiaeth (Astudiaethau Cymdeithasol), Mathemateg a Chyfrifiadura. Mae'r sioe sleidiau sy'n cyd-fynd â nhw yn cynnwys delweddau i'w defnyddio ochr yn ochr â'r gweithgareddau.

Mae'r syniadau hyn wedi'u rhannu'n dair adran, a'u bwriad yw cefnogi eich gwaith addysgu yn hytrach na'i arwain. Felly, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth gefndir fanwl, ac efallai y bydd angen addysgu ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o ran rhai cysyniadau allweddol. Darperir awgrymiadau ar gyfer dolenni gwefannau ac adnoddau drwyddi draw.

1. ARCHWILIO DELWEDDAU

Mae delweddau'n chwarae rhan bwysig wrth ffurfio ein hagweddau tuag at bobl, diwylliant a lleoedd. Gellir eu defnyddio i helpu dysgwyr i gryfhau eu sgiliau cwestiynu, meddwl yn feirniadol a chydweithredu; herio rhagdybiaethau a stereoteipiau; meithrin empathi a datblygu parch at eraill.

Mae'r syniadau canlynol ar gyfer gweithgareddau yn cysylltu â'r delweddau a ddarperir yn y sioe sleidiau *Sefwch gyda Ffoaduriaid*.

Defnyddiwch y delweddau yn sleidiau 2 i 6 gyda dysgwyr 7-11 oed, a'r delweddau yn sleidiau 6 i 12 gyda dysgwyr 11-14 oed. Mae sleid 6 yn addas i'w defnyddio gyda'r ddau grŵp oedran ac mae'n helpu dysgwyr i werthfawrogi bod pobl wedi cael eu dadleoli ym mhob man yn y byd.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Er bod gwledydd cyfoethocach yn gallu cefnogi pobl yn well pan fydd argyfyngau'n digwydd (ac mae gan fwy o bobl yswiriant ar gyfer eu cartrefi a'u heiddo), mae'r boen o gael eich gorfodi i adael eich cartref yn dal i fod yno.

Dychmygu siwrnai (7-11 oed)
Rhowch eich hun yn y llun

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis unigolyn mewn ffotograff, a dychmygu beth y gallai'r unigolyn hwn fod yn ei feddwl. Gallai'r dysgwyr dynnu llun swigod meddyliau ar nodynnau gludiog a'u hychwanegu at y ffotograff. Gellid gwneud hyn yn unigol neu ar y cyd mewn grwpiau.
- Gellid ymestyn y gweithgaredd hwn trwy wahodd y dysgwyr i eistedd yn y “gadair goch” gan chwarae rhan eu cymeriad dewisol, ac ateb cwestiynau gan eraill yn y rôl honno.
- Fel arall, gofynnwch i'r dysgwyr ddewis dau unigolyn yn y ffotograff a dychmygu sgwrs rhyngddynt. Gallech ddatblygu hyn ymhellach trwy ofyn i'r dysgwyr weithio mewn parau i ymgymryd â rolau'r cymeriadau ac actio'r sgwrs.

Meddwl y tu allan i'r ffrâm

- Tociwch un neu ragor o'r delweddau mewn ffordd a fydd yn annog y dysgwyr i ddychmygu'r hyn sy'n digwydd “y tu allan i'r ffrâm”.
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau a rhowch ran fach o'r ffotograff i bob grŵp, wedi'i glynu ar ddalen fawr o bapur. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd yn eu grwpiau i ymestyn y llun trwy dynnu llun o'i gwmpas.
- Ar ôl iddynt orffen, rhowch amser i'r dysgwyr gylchredeg a thrafod lluniau'r grwpiau eraill.
- Yn olaf, dangoswch y ffotograffau “cyflawn” iddynt. Cymharwch y rhain â deongliadau'r dysgwyr a thrafodwch eu hymatebion.

Dadansoddi delweddau (11-14 oed)

Cwestiynu ffotograffau

- Argraffwch gopïau o'r delweddau a glynwch bob ffotograff ar ganol darn mawr o bapur.
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar a rhowch un o'r delweddau i bob grŵp. Gofynnwch iddynt edrych yn ofalus ar y ffotograff a thrafod yr hyn y maent yn ei wybod amdano.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried yr hyn yr hoffent ei wybod am y ffotograff, ac ysgrifennu'r holl gwestiynau y gallant feddwl amdanynt ar y papur sy'n amgylchynu'r ddelwedd.
- Gellid defnyddio'r cwestiynau canlynol i annog y dysgwyr i gwestiynu eu rhagdybiaethau am y ddelwedd:
    - *Ble mae'r lle hwn? A yw yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall yn y byd? Pam yr ydych yn meddwl hyn?*
    - *Beth yr ydych yn ei gredu sy'n digwydd y tu hwnt i'r ffrâm? Pam yr ydych yn meddwl hyn?*
    - *Beth yr ydych yn meddwl ddigwyddodd cyn i'r llun gael ei dynnu a beth allai fod wedi digwydd wedyn? Pam yr ydych yn meddwl hyn?*
- Fel gweithgaredd estyn, gallai'r dysgwyr dynnu llun o'r hyn sydd, yn eu barn nhw, y tu hwnt i ffrâm y ffotograff ar y papur o'i chwmpas. Fel arall, os ydych am gymharu syniadau'r dysgwyr â'r realiti a ddangosir yn y ffotograff, gallech ddatgelu dim ond rhan o'r ddelwedd wreiddiol i ddechrau a gofyn i'r dysgwyr ei hymestyn.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Gallai'r dysgwyr ddadansoddi eu cwestiynau ymhellach trwy ddefnyddio'r offeryn *Route Finder* i gategoreiddio eu cwestiynau a nodi unrhyw lwybrau cwestiynu nad ydynt wedi cael sylw. Mae'r *Route Finder* yn fframwaith, wedi'i seilio ar *Development Compass Rose* gan Tide~Global Learning, a fwriedir i ysgogi cwestiynau ynghylch adnoddau megis ffotograffau, arteffactau neu storiâu. I gael rhagor o fanylion, gweler tudalen 94 o *Get Global!*: www.oxfam.org.uk/get-global

Ffactorau Gwthio a Thynnu

- Esboniwch fod pobl yn mudo rhwng gwledydd am lawer o resymau gwahanol. Gellir dosbarthu'r rhesymau hyn yn *economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol* neu *amgylcheddol*. Mae rhai pobl yn *dewis* mudo, er enghraifft, rhywun sy'n symud i wlad arall i wella ei gyfleoedd o ran gyrfa. Mae rhai pobl yn cael eu *gorfodi* i fudo, er enghraifft, rhywun sy'n symud oherwydd rhyfel neu newyn. Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cwympo i'r ail categori hwn o fudo gorfodol.
    - Ffactorau *gwthio* yw'r rhesymau pam y mae pobl yn gadael ardal.
    - Ffactorau *tynnu* yw'r rhesymau pam y mae pobl yn symud i ardal benodol.
- Rhannwch y delweddau o'r sioe sleidiau. Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r 'dystiolaeth' yn y ffotograffau hyn i nodi'r ffactorau gwthio a thynnu posibl y maent yn meddwl y gallent beri i rai pobl symud o un wlad neu le i'r llall. Ymhlith y ffactorau posibl y mae:

Ffactorau gwthio	**Ffactorau tynnu**
diffyg gwasanaethau (er enghraifft, ysgolion a gofal iechyd)	cyfleoedd gwell o ran gwaith
bod yn anniogel	gwasanaethau gwell (er enghraifft, ysgolion a gofal iechyd)
tlodi	yn fwy diogel, gyda llai o droseddu
lefelau uchel o droseddu	hinsawdd well
cnydau yn methu	sefydlogrwydd gwleidyddol
trychinebau megis daeargrynfeydd, llifogydd neu sychder	tir mwy ffrwythlon ar gyfer tyfu cnydau
gwrthdaro	llai o risg o beryglon naturiol megis daeargrynfeydd, llifogydd neu sychder

Ffactorau gwthio a thynnu wedi'u haddasu o BBC GCSE Bitesize Geography – Migration Trends: www.bbc.co.uk/schools/gcsebitesize/geography/migration/migration_trends_rev2.shtml

- Atgoffwch y dysgwyr mai'r diffiniad o ffoadur, o dan Gonfensiwn Ffoaduriaid 1951 y Cenhedloedd Unedig, yw rhywun sy'n ofni'n rhesymol y bydd yn cael ei erlid am resymau'n ymwneud â hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth o grŵp cymdeithasol penodol neu farn wleidyddol, ac sydd, oherwydd ofn o'r fath, yn amharod i ddychwelyd i'w wlad".[3]
- Gofynnwch i'r dysgwyr nodi pa rai o'r ffactorau gwthio a nodwyd ganddynt yn gynharach sy'n berthnasol i rywun y gellid ei ystyried yn gyfreithiol yn ffoadur.

[3] www.unhcr.org/uk/1951-refugee-convention.html

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

2. DEFNYDDIO FIDEOS I FEITHRIN EMPATHI

Defnyddiwch y clipiau fideo a'r animeiddiadau canlynol i ennyn diddordeb dysgwyr a meithrin empathi tuag at eraill.

- **Unfairy tales – Unicef (9-11 oed)**

  Mae'r animeiddiadau byr hyn o Unicef yn adrodd straeon go iawn tri o blant sy'n ffoaduriaid:

  - www.unicef.org/emergencies/childrenonthemove/unfairytales/en

- **Most shocking second a day – Achub y Plant (11-14 oed)**

  Mae'r clipiau fideo hyn (Rhannau 1 a 2) yn ein hatgoffa'n glir nad yw'r ffaith nad yw'r argyfwng ffoaduriaid yn digwydd yma yn ei wneud yn llai erchyll:

  - www.savethechildren.org.uk/how-you-can-help/emergencies/syria-crisis-appeal/second-a-day
  - www.savethechildren.org.uk/how-you-can-help/emergencies/child-refugee-crisis/still-the-most-shocking-second-a-day

- **Plant ffoaduriaid yn rhannu eu straeon – World Vision UK (9-14 oed)**

  Yn y clip fideo hwn, mae plant yn rhannu stori eu taith ar awyren, cwch ac ar droed, o Irac i gyrraedd ffin Serbia a Croatia.

  - www.youtube.com/watch?v=hLRKh8oxTVc

Ymhlith y syniadau posibl ar gyfer defnyddio'r clipiau fideo hyn yn yr ystafell ddosbarth y mae:

Cysylltiadau ac elfennau cyffredin

- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr holl elfennau cyffredin a chysylltiadau rhwng eu bywydau a bywydau'r unigolyn (neu'r unigolion) sy'n ymddangos yn un o'r clipiau fideo, a'u hysgrifennu. Gellid gwneud hyn yn unigol, neu mewn parau neu grwpiau o dri.
- Trafodwch syniadau'r dysgwyr fel dosbarth. Tynnwch sylw at y ffaith ein bod yn aml yn canolbwyntio ar ein gwahaniaethau, ond fel arfer mae gennym lawer mwy yn gyffredin na'r hyn sy'n ein rhannu.

Ysgrifennu, darlunio neu weithredu

- Defnyddiwch un neu ragor o'r clipiau fideo i ysgogi gwaith creadigol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu bod yn rhywun yn un o'r clipiau fideo. Gellid defnyddio'r cwestiynau canlynol i gefnogi hyn.
  - *Beth sydd wedi digwydd/sy'n digwydd yn eich bywyd?*
  - *Beth ydych yn ei feddwl?*
  - *Sut yr ydych yn teimlo?*
  - *Beth yw eich gobeithion ar gyfer y dyfodol?*
- Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio ysgrifennu, celf neu ddrama i bortreadu eu meddyliau, eu teimladau a'u hemosiynau. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr ysgrifennu cofnod mewn dyddiadur neu gerdd yn y person cyntaf. Fel arall, gallai'r dysgwyr weithio mewn grwpiau i actio fframiau rhewi o olygfeydd o un o'r clipiau fideo.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

3. DEHONGLI DATA

Mae defnyddio ystadegau bywyd go iawn yn ffordd wych o ddangos diben pynciau megis mathemateg a chyfrifiadura i ddysgwyr, a'u hysbrydoli. Defnyddiwch ddata o'r adroddiad *Global Trends* blynyddol a gyhoeddir gan Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (UNHCR) i gynorthwyo'r dysgwyr i wneud synnwyr o rai o'r ffeithiau a'r ffigurau sy'n ymwneud â phobl wedi'u dadleoli a ffoaduriaid.

www.unhcr.org/search?comid=56b079c44&&cid=49aea93aba&tags=globaltrends

Rhannwch yr adran *Trends at a glance* ar flaen yr adroddiad. Mae hyn yn rhoi cipolwg defnyddiol ar ddata, er enghraifft nifer y bobl sydd newydd eu dadleoli, faint o'r rhain sy'n blant, y prif wledydd y mae ffoaduriaid yn ffoi ohonynt, yn ogystal â'r gwledydd sy'n lletya'r nifer uchaf o ffoaduriaid. Darperir rhai o'r ystadegau allweddol hyn hefyd yn yr adran *Figures at a glance* ar wefan yr UNHCR: www.unhcr.org/uk/figures-at-a-glance.html

Ymhlith y syniadau posibl ar gyfer gweithgareddau sy'n defnyddio'r data hyn y mae:

- Creu geirfa gydag ystyron geiriau sy'n codi yn yr adroddiad, er enghraifft *dadleoli, ffoadur, lletya, tarddiad, di-wladwriaeth, ceisiwr lloches, ar ei ben ei hun, wedi'i wahanu* ac *adsefydlu.* Gallai'r eirfa ganlynol gan Migrant Help fod o ddefnydd:

  refugeeweek.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/Migration-Asylum-Glossary-final.pdf

- Gofyn ac ateb cwestiynau am y data, er enghraifft: *Faint yn rhagor o bobl fydd wedi cael eu gorfodi i ffoi i rywle yn y byd ymhen pum munud? 30 munud? Un awr? Un diwrnod? Un wythnos?*

- Dylunio ffeithluniau i egluro ffeithiau allweddol o'r adroddiad. Gellid rhannu'r rhain ar boster, trwy bost blog neu drwy gyflwyniad mewn gwasanaeth i eraill yn yr ysgol.

- Defnyddio adroddiadau *Global Trends* blaenorol, yn ogystal â'r fersiwn gyfredol, i lunio graff llinell i ddangos y modd y mae dangosyddion, er enghraifft nifer y bobl sydd wedi'u dadleoli, wedi newid dros amser.

- Lleoli'r prif wledydd y mae ffoaduriaid yn ffoi ohonynt a'r gwledydd sy'n lletya'r nifer mwyaf o ffoaduriaid ar fap o'r byd. Defnyddiwch y Rhyngrwyd i ddarganfod gwybodaeth gefndir am y gwledydd hyn, a'r rhesymau pam y mae pobl yn cael eu dadleoli yno (neu'r effeithiau y mae dyfodiad pobl sydd wedi'u dadleoli o wledydd eraill yn eu cael).

- Ymchwilio i ffeithiau a ffigurau eraill am ffoaduriaid, ymfudwyr a cheiswyr lloches. Er enghraifft:
  - *Faint o geiswyr lloches sydd yn y Deyrnas Unedig?*
  - *Faint o ffoaduriaid sy'n blant?*
  - *Faint o bobl sy'n cael eu gorfodi i adael eu cartrefi o ganlyniad i drychinebau naturiol?*

  Gweler isod rai ffynonellau data defnyddiol eraill.

DOLENNI AC ADNODDAU DEFNYDDIOL

Rhagor o Wybodaeth

- Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (UNHCR): www.unhcr.org/uk/
- Y Ganolfan Monitro Dadleoli Mewnol: www.internal-displacement.org/

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Ystadegau ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches gan y Cyngor Ffoaduriaid yn y Deyrnas Unedig: www.refugeecouncil.org.uk/stats

Adnoddau a gweithgareddau addysg

- Gall pynciau megis ymfudo a ffoaduriaid ysgogi ymatebion cryf, amrywiol, sy'n aml yn wrthgyferbyniol. I gael arweiniad, strategaethau a gweithgareddau addysgu ymarferol ar gyfer rheoli materion dadleuol yn yr ystafell ddosbarth, gweler canllaw Oxfam, *Addysgu Pynciau Llosg*.
  - www.oxfam.org.uk/education/resources/teaching-controversial-issues
- Rhowch gynnig ar Gwis Ffoaduriaid Oxfam i ddysgu rhagor am yr argyfwng ffoaduriaid presennol ac i ddeall y gwahaniaeth rhwng ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
  - www.oxfam.org.uk/education/resources/refugees-quiz
- Defnyddiwch y ffilm fer hon a'r syniadau a awgrymir ar gyfer gweithgareddau i feddwl am yr hyn sy'n debyg rhyngom a'r hyn y mae arnom i gyd ei angen i gael bywyd da. Ceisiwch feithrin empathi gyda ffoaduriaid a dychmygu sut brofiad fyddai gadael popeth ar ôl.
  - www.oxfam.org.uk/education/resources/were-not-so-different
- Rhowch gynnig ar adnodd Oxfam, *Ysgolion Noddfa*: Adnodd *Rhoi Croeso Cynnes* ar gyfer pobl ifanc 11 i 18 oed. Wedi'i greu mewn partneriaeth ag Ysgolion Noddfa, mae'r adnodd hwn yn galluogi dysgwyr i feddwl am pam y mae ffoaduriaid yn gadael eu cartrefi, pa heriau y maent yn eu hwynebu, pa mor groesawgar yw'r Deyrnas Unedig i'r rheiny sy'n ceisio lloches, a'n hawliau dynol sylfaenol. Yna gall pobl ifanc droi eu sylw at eu hysgol eu hunain a'r croeso y mae'n ei ddarparu.
  - www.oxfam.org.uk/education/resources/schools-of-sanctuary
- Edrychwch ar yr adnodd *Ifanc, Ymfudol, Cymreig* gan Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac ieuenctid Cymru i gael syniadau ar gyfer addysgu am hunaniaeth a diwylliant o safbwynt y bobl ifanc eu hunain.
  - ymw.eyst.org.uk/young.php?s=young-migrant-welsh-teaching-resource-lesson-plans
- Archwiliwch sylw'r cyfryngau i newyddion a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r pwnc ymfudo a ffoaduriaid. Anogwch y dysgwyr i feddwl yn feirniadol am y sylw hwn. *A allant nodi ffeithiau, barn, ystrydebu a thuedd? Sut y maent yn meddwl y mae dewisiadau'n cael eu gwneud ynglŷn â pha straeon sy'n cael sylw neu sy'n cael amlygrwydd?*
- Defnyddiwch y wefan *Global Dimension* gan Think Global i archwilio adnoddau addysg eraill sy'n gysylltiedig â'r pwnc ymfudo a ffoaduriaid.
  - globaldimension.org.uk/resources/search/?fwp_topic=migration-refugees

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.